monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 27 Gorffennaf 2016**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Manually Type Call in Date**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir G. Burrows, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, E. Hacket Pain, P.A.D. Hobson, S.B. Jones and P. Murphy

**AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir

**SWYDDOGION YN BRESENNOL**

| Eitem Rhif | Title | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **4a** | RMonitro Cyfalaf a Refeniw 2016/17 - Cyfnod 1 Datganiad Rhagolygon Alldro | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Mae'r Cabinet yn nodi ystent y rhagolwg o orwariant refeniw yng nghyfnod 1 o £1.37 miliwn.<br><br>Mae'r Cabinet yn gofyn bod Prif Swyddogion yn darparu gwybodaeth ar sut fydd y sefyllfa o orwario yn cael ei gymryd yn ôl o fewn y gyllideb, gan gynnwys cynlluniau amgen i gyflwyno'r arbedion o £301,000 a fandadwyd nad sy'n gyraeddadwy o fewn y cyfnod monitro nesaf.<br><br>Mae'r Cabinet yn gofyn bod y Gyfarwyddiaeth yn adolygu lefelau gorwariant a thanwariant ac yn ail-ddyrannu cyllidebau i leihau'r ystent o orfod adrodd am sefyllfaoedd cydadferol cyn yr adroddiad 6 mis.<br><br>Mae'r Cabinet yn gwerthfawrogi ystent y defnydd o'r cronfeydd wrth gefn arfaethedig ar gyfer ysgolion a'r disgwyliad y bydd 13 ysgol mewn sefyllfa ddiffygiol erbyn diwedd 2016-17.<br><br>Ystyriodd y Cabinet y monitro cyfalaf sy'n dangos amrywiaeth fechan yn unig o'r gyllideb yn sgil cymeradwyaeth ddiweddar y Cabinet a'r Cyngor ar Dŷ Caerwent.<br><br>Mae'r Cabinet yn cydnabod y risg sy'n gysylltiedig gyda gorfod dibynnu ar ddefnydd o dderbynebau cyfalaf yn y flwyddyn arfaethedig a'r potensial i hyn roi pwysau sylweddol ar refeniw pe byddai oedi gyda'r derbynebau a bod rhaid benthyg cyllid dros dro. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4b** | Crick Road – Gwerthiant posib i Melin Homes | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Mae'r Cabinet yn cytuno i'r Cyngor gychwyn trafodaethau gyda Thai Melin ar werthiant arfaethedig Heol Crick er mwyn datblygu Cynllun Busnes a fydd yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law. Bydd y costau a fydd Melin yn mynd iddynt wrth ddatblygu'r cynllun hwn yn cael eu gwarantu gan y Cyngor hwn os byddwn yn dewis peidio â pharhau gyda'r gwarediad.<br><br>Bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet am drafodaeth ar a ddylid parhau gyda'r gwerthiant ai peidio. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4c** | Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cyngor - 2015/16 Diweddariad | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i helpu gyda'u monitro a gwerthuso parhaus o effeithlonrwydd gwasanaethau ac i ba raddau y maen nhw'n cyfrannu at flaenoriaethau'r cyngor o addysgu plant, cefnogaeth i bobl agored i niwed, menter a chreu swyddi a chynnal gwasanaethau lleol hygyrch.<br><br>Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i adnabod unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i yrru gwelliannau, gan sicrhau bod gwasanaethau mor effeithlon ac effeithiol â phosib yng nghyd-destun adnoddau cyfredol. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4d** | Adolygiad Uwch Arweinyddiaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Cytuno ar strwythur uwch arweiniad addas i'r diben ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.<br><br>Awdurdodi i'r Prif Swyddog barhau gyda chamau gweithredu rheoli angenrheidiol i roi'r newidiadau hyn ar waith gan wneud hyn yn unol â pholisïau cyflogaeth cymeradwy y Cyngor.<br><br>Gofyn, pe nad oes modd talu'r costau diswyddo o gronfa'r gyfarwyddiaeth, bod y costau hyn yn dod o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer Diswyddiadau a Phensiynau.<br><br>Gofyn am fynediad i'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddi i ail-ddylunio i gefnogi'r gallu trawsnewid sydd ei angen i gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol er mwyn cyflawni gwelliant cynaliadwy yng ngwasanaethau plant |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4e** | Adroddiad Gwella Gwasanaethau Plant | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Cymeradwyo'r Gwelliannau i Wasanaethau plant fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.<br><br>Cymeradwyo buddsoddiad o £250,000 o Gronfeydd wrth gefn Blaenoriaethu Buddsoddiad er mwyn cefnogi gwelliannau i arferion gwasanaethau plant sy'n |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4f** | Cynllun Datblygu Gweithlu a Phractis | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bydd aelodau'n derbyn ac yn craffu ar y wybodaeth yn ymwneud â'r heriau allweddol o fewn Cynllun Datblygu'r Gweithlu ac Arferion. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4g** | Strategaeth Gomisiynu: 'Ble Wyf yn ddiogel?'- Strategaeth ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ymagwedd yn y Strategaeth i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd, ac y byddant yn adolygu cynnydd a'r ymagwedd yn rheolaidd. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4h** | Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Pobl Mehefin 2016 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Pobl ac yn nodi unrhyw faterion yr hoffent i Dîm Gwasanaethau Pobl eu hystyried yn y dyfodol. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4i** | Costau Dileu Swyddi, Gwasanaethau Hamdden | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |